OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3316 (Cy.301)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *12 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mehefin 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 10(3), (4)(b) a (5) a 93(1)(b) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mehefin 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

**2.** Ar ôl rheoliad 3A (datganiadau dylunio a mynediad) o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**3**), mewnosoder—

"**Access Statements: Wales**

**3B.**—(1) Any application to a local planning authority for listed building consent must, subject to paragraph (3), be accompanied by a statement ("an access statement") explaining how issues relating to access to the building have been dealt with.

(2) Subject to paragraph (3), an access statement must explain—

(**1**) 1990 p.9. Diwygiwyd adran 10 gan adran 42(6) i (8) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5). Gweler adran 91(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i gael y diffiniad o "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). *Gweler* y cofnod ar gyfer Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn Atodlen 1 i Orchymyn 1999 fel y'i diwygiwyd gan adran 118(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

(**3**) O.S. 1990/1519, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(a) the policy or approach adopted as to access, including—

(i) what alternative means of access have been considered, and

(ii) how policies relating to access in the development plan(**4**) have been taken into account,

(b) how the policy or approach adopted as to access takes account of—

(i) the special architectural or historic importance of the building,

(ii) the particular physical features of the building that justify its designation as a listed building, and

(iii) the building's setting,

(c) how any specific issues which might affect access to the building have been addressed; and

(d) how features which ensure access to the building will be maintained.

(3) Paragraphs (1) and (2) do not apply in relation to an application for listed building consent to carry out works affecting only the interior of a building.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

12 Rhagfyr 2006

(**4**) *Gweler* adran 38(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5) i gael ystyr "development plan" a'r darpariaethau trosiannol a'r arbedion yn erthygl 3 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 (O.S. 2005/2847) (C.118).

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae rheoliad 3 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Rheoliadau 1990") yn gwneud darpariaeth o ran ceisiadau i awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 3B newydd i Reoliadau 1990. Mae erthygl 3B newydd yn gymwys o ran Cymru ac mae'n darparu o ran y gofyniad i ddatganiadau mynediad fynd gyda cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. Mae'r ddarpariaeth newydd o ganlyniad i adran 42 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a fewnosododd y gofyniad "datganiadau mynediad" yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.